

Pwyllgor Cyswilt Ystadegol Cymru

Cydbwyllgor Ymgynghorol Cenedlaethol ar Ystadegau
Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Mehefin 2016
Prifysgol Glyndŵr, Wrecsam

Yn bresennol			
Adam	Al-Nuaimi	AA	Llywodraeth Cymru
Karen	Armstrong	KA	Cyngor Sir y Fflint
Janine	Edwards	JE	Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Neville	Evans	NE	Cyngor Sir Ynys Môn
Pippa	Hardwick	PH	Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
Lauren	Hassett	LH	Cyngor Gwynedd
Bethan	Hughes	BH	Cyngor Gwynedd
Glyn	Jones	GJ	Llywodraeth Cymru
Steve	King	SK	Dinas a Sir Abertawe
Sue	Leake	SL	Llywodraeth Cymru
Sarah	Lowe	SEAL	Llywodraeth Cymru
Geraint	Morgan	GM	Cyngor Sir Powys
Siân	Morris	SM	Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
Ludi	Simpson	LS	Prifysgol Manceinion
Andrew	Stephens	AS	Uned Ddata Cymru
Jamie	Thorburn	JT	Cyngor Sir Ceredigion
Holly	Walsh	HW	Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru
Ymddiheuriadau			
Phillip	Barlow		Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro
Osian	Bowyer		Comisiynydd y Gymraeg
Sioned	Cardew-Richardson		Estyn
Chris	Clarke		Bwrdeistref Sirol Torfaen
Fiona	Clay-Poole		Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot
Vicki	Doyle		Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
Jill	Edge		Cyngor Sir Fynwy
Emyr	Edwards		Cyngor Gwynedd
Rhys	Fidler		Uned Ddata Cymru
Alan	Jackson		Llywodraeth Cymru
Martin	Jennings		Comisiwn y Cynulliad
Leanne	John		Dinas a Sir Abertawe
Helen	Jones		Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Paul	Jones		Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent
Sarah	Jones		Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Ann-Marie	McCafferty		Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
David	Morgan		Cyngor Sir Penfro
Jenny	Murphy		Uned Ddata Cymru
Anna	Nicholl		Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
Jonathan	Radcliffe		Chwaraeon Cymru
Lesley	Rees		Cyngor Sir Gâr
Richard	Reynolds		Cyngor Sir Gâr
Matthew	Scanlon		Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog
Beverley	Searle		Cyngor Bro Morgannwg
Yuan	Shen		Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
Alison	Vaughan		Cyngor Sir Ceredigion
Russell	Watts		Cyngor Bro Morgannwg
Tryfan	Williams		Cyngor Gwynedd
Lowri	Wyn Francis		Cyngor Gwynedd

1	Croeso, Cyflwyniadau ac Ymddiheuriadau	
	Agorodd GJ y cyfarfod a chroesawodd yr aelodau newydd. Ar achlysur ei hymddeoliad, roedd Bev Searle o Fro Morgannwg wedi anfon neges at y grŵp, gan ddweud: “Byddwn yn ddiolchgar iawn pe gallech ddiolch yn ddiffuant i bob aelod o'r grŵp ar fy rhan. Bu'n bleser mawr dod i gyfarfod PCYC ac rwy'n ystyried ei fod yn rhan amhrisiadwy o'r gymuned ymchwil” Ar ran y grŵp, dymunodd GJ yn dda i Bev pan fydd yn ymddeol a diolchodd iddi am ei chyfraniad i'r grŵp dros y blynyddoedd.	
2	Nodyn o'r cyfarfod diwethaf a diweddariad ar y pwyntiau gweithredu (PCYC (2015 12) 01 & 02)	
	Ni chafwyd unrhyw geisiadau i ddiwygio cofnodion y cyfarfod diwethaf. Ymddiheurodd GJ am beidio â diweddarau'r ddogfen pwyntiau gweithredu cyn ei dosbarthu. <i>Pwynt Gweithredu 1: Fe'i cynhwyswyd ar agenda'r cyfarfod.</i> <i>Pwynt Gweithredu 2: Gweithredwyd.</i> <i>Pwynt Gweithredu 3 – I'w ystyried yn ystod yr eitem ar y wybodaeth ddiweddaraf am Cenedlaethau'r Dyfodol</i> <i>Pwynt Gweithredu 4 – Nid oedd wedi'i wneud ond gwneir hynny ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol.</i> <i>Nid oedd unrhyw bwyntiau cyffredinol pellach ynglŷn â'r Pwyntiau Gweithredu.</i>	
3	Adolygu'r papurau gwybodaeth	
	Esboniodd GJ fod y papurau wedi dyddio ychydig am eu bod wedi'u paratoi ar gyfer y cyfarfod a oedd wedi'i drefnu ar gyfer mis Mawrth ond ni allai WG eu cyhoeddi yn ystod y cyfnod cyn yr etholiad. Rhoddodd GJ y wybodaeth ddiweddaraf am bethau a oedd wedi digwydd ers i'r papurau gael eu cwblhau, sef: 1) Dosbarthwyd Arolwg Cenedlaethol Cymru ym mis Ebrill 2016. 2) Cyhoeddwyd y dangosyddion ar gyfer MALIC ar 25 Mai. 3) Cynhaliwyd y cyfarfod cyntaf o WASP ers amser hir (sef y grŵp technegol ar gyfer amcanestyniadau poblogaeth). Cyhoeddir amcanestyniadau poblogaeth ym mis Medi ac amcanestyniadau ar gyfer tai a pharciau cenedlaethol yn ystod y chwe mis dilynol. Nododd GJ, o ganlyniad i'r ymatebion i'r ymgynghoriad, y bydd yr amcanestyniadau yn newid i gylch sefydlog o dair blynedd. Bydd amseriad cyhoeddi'r amcanestyniadau cyntaf ar ôl y Cyfrifiad ar gyfer 2021 yn dibynnu ar ba mor gyflym y gall y SYG ddosbarthu'r data a'r allbynnau – y cylch tebygol yw 2014, 2017, 2020, wedyn diwedd 2022 o bosibl neu 2023, sy'n fwy tebygol. Er mai'r ymrwymiad yw dosbarthu data ac allbynnau bob tair blynedd caiff hyn ei addasu i ddiwallu anghenion defnyddwyr Nododd JE, yn sgil ymddeoliad Jerry Dixon a Bev Searle, fod angen cynnwys rhywun ar WASP i gynrychioli maes cynllunio defnydd tir. Gofynnodd GJ am awgrymiadau ynglŷn â phwy a allai gyflawni'r rôl hon - un awgrym oedd David Morgan, sy'n gweithio i Gyngor Sir Penfro ar hyn o bryd. Dywedodd GJ y byddai'n ysgrifennu at yr aelodau i ofyn pwy y dylid ei	PWYNT GWEITHREDU: GJ i ysgrifennu at yr aelodau i ofyn am awgrymiadau ynglŷn â phwy a allai gynrychioli maes cynllunio defnydd tir ar WASP

	gynnwys ar WASP i gynrychioli maes cynllunio defnydd tir. Nododd JE y bydd angen canllawiau ar ALLau os disgwylir i amcanestyniadau fod yn wahanol i'r rhai a gyhoeddwyd yn flaenorol ac ym mha ffordd. Cytunodd GJ a nododd fod angen hyrwyddo amcanestyniadau gwahanol yn gliriach hefyd.	
	PCYC (2015 09) 03 - Cylchlythyr Ystadegau Llywodraeth Cymru Cynhelir gweithdy ar 10 Mehefin er mwyn trafod ffyrdd o wella data digartrefedd. Mae newidiadau i ddeddfwriaeth yn golygu y caiff data gwahanol eu casglu eleni ac, felly, rydym yn gweithio'n agos gydag ALLau er mwyn sicrhau bod y data a gesglir mor gyson a chywir â phosibl. Felly, bydd angen amser i wirio a dilysu'r data cyn i ddata'r flwyddyn gyntaf gael eu cyhoeddi ac mae wedi'i ohirio. Nododd AA fod rhywfaint o'r oedi wedi bod wrth gasglu'r data yn hytrach na'u darparu – roedd angen newid systemau er mwyn adlewyrchu'r newidiadau i ddeddfwriaeth ac mae rhai ALLau wedi'i chael hi'n anodd diweddarau eu systemau er mwyn darparu'r detholiad diwygiedig o ddata. Bydd y SYG yn cyhoeddi mynegai prisiau tai newydd ar 14 Mehefin. Nododd JE eu bod hefyd yn gobeithio cynhyrchu data ar lefel MSOA a bod angen iddynt brofi ansawdd y mynegai newydd o hyd – nid yw cystal â data'r gofrestrfa tir. Nodwyd bod y SYG wedi cyhoeddi erthygl ar 30 Mawrth gan gyflwyno'r mynegai newydd ac esbonio'r newidiadau. Cododd JE fater asesu anghenion sipsiwn a theithwyr, gan nodi bod ALI Wrecsam wedi'i chael hi'n anodd dilyn y canllawiau ac nad oedd yr amcangyfrifon a gafwyd o ganlyniad yn gredadwy, yn ôl pob golwg.	PWYNT GWEITHREDU: SL i holi cydweithwyr o fewn Llywodraeth Cymru ynghylch y canllawiau ar asesu anghenion sipsiwn a theithwyr
	PCYC (2015 09) 04 – Diweddariad demograffi a PCYC (2015 09) 06 – Papur Gwybodaeth am y Cyfrifiad, y Swyddfa Ystadegau Gwladol Tynnodd GJ sylw'r grŵp at y diweddariad demograffig a'r papur ychwanegol ar y cyfrifiad a oedd wedi'i ddosbarthu ar wahân y noson gynt. Nododd y cyflwynir yr un papur i'r Grŵp Cynghori ar y Cyfrifiad: Cymru ar 17 Mehefin. Bydd Llywodraeth Cymru yn gofyn i'r SYG roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y Cyfrifiad i bob cyfarfod o PCYC o hyn ymlaen a bydd yn gwahodd y SYG i siarad am unrhyw faterion pwysig sy'n codi. Trafodwyd cynrychiolaeth o Gymru ar y Grŵp Cynghori ar y Cyfrifiad (CAG). Cytunodd GJ i ddosbarthu'r rhestr er mwyn sicrhau bod cynrychiolaeth briodol o awdurdodau lleol a bod gwarcheidwad y Rhestr Tir ac Eiddo Genedlaethol (NLPG) yn cael ei gynnwys. Cytunwyd y dylai'r cynrychiolwyr gyflwyno adroddiadau ffurfiol i PCYC.	PWYNTIAU GWEITHREDU: GJ i ddosbarthu rhestr o gynrychiolwyr CAG er mwyn sicrhau bod cynrychiolaeth briodol o awdurdodau lleol a bod gwarcheidwad yr NLPG yn cael ei gynnwys. Bydd cynrychiolwyr CAG yn cyflwyno adroddiadau ffurfiol i PCYC.

	PCYC (2015 09) 05 – Diweddariad yr Uned Ddata Dywedodd AS fod cyflwyniad wedi'i roi ar Dewis yn y cyfarfod diwethaf ond bod y gwaith hwn yn ehangu'n gyflym gyda nifer o ALLau yn Ne Cymru bellach yn ymuno â'r grŵp. At hynny, mae dwy fersiwn newydd o Dewis wedi'u cyhoeddi sy'n gweithredu'n well. Er y caiff Dewis ei lansio'n ffurfiol yng nghynhadledd y Gwasanaethau Cymdeithasol yn Llandudno ar ddiwedd mis Mehefin, mae'r gwaith hwn yn graddol symud i fyny'r agenda ar gyfer ALLau yng Nghymru. Nododd AS fod InfoBaseCymru wedi'i diweddaru a gofynnodd am i unrhyw sylwadau gael eu hanfon ato. Cyflwynodd AS adroddiad ar fater pa ddangosyddion y dylai ALLau gyflwyno adroddiadau yn eu herbyn, o gofio bod dangosyddion newydd wedi'u cyflwyno ar gyfer Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, ac ymgynghoriad diweddar ynghylch dyfodol Dangosyddion Strategol Cenedlaethol (DSCau). Mae angen i Lywodraeth Leol, o dan arweiniad CLILC, ystyried beth mae hyn yn ei olygu iddyn nhw am eu bod yn dal i fod yn gyfrifol am gyhoeddi data perfformiad o dan reoliadau Llywodraeth Lleol.	
	Mae CLILC wedi ysgrifennu at bob Prif Weithredwr i gadarnhau bod pob arweinydd wedi cyfarfod a chytuno i gasglu DSCau ar gyfer 2016-17 waeth beth fo canlyniad yr ymgynghoriad er mwyn helpu i fodloni'r gofyniad hwn. Anfonwyd y llythyr hwn at arweinwyr mewn adrannau polisi a gwelliant hefyd. Nododd AA ei bod yn bosibl y bydd rhai Awdurdodau Lleol yn ei chael hi'n anodd newid systemau mewn pryd i roi gwybod am unrhyw beth gwahanol. Cytunodd AS: fod Prif Weithredwyr rhai ALLau eisoes wedi rhoi cynlluniau corfforaethol ar waith gan ddefnyddio'r dangosyddion presennol; fodd bynnag, bydd unrhyw beth newydd yn anstatudol ac os bydd pobl yn cael problemau, dyna'r adeg i wneud newidiadau. Gellid darparu'r dangosyddion blaenorol am beth amser os oes angen, y caiff llawer ohonynt eu hailboblogi'n awtomatig, felly ychydig iawn o adnoddau fyddai eu hangen er mwyn adrodd arnynt. Awgrymodd GJ y gallai fod gan Lywodraeth Cymru statws sylwedydd ar Grŵp Gorchwyl a Gorffen CLILC er mwyn iddi fod yn ymwybodol o ddatblygiadau a sicrhau cydlyniant/lleihau dyblygu o ran casgliadau sy'n bodoli eisoes. Dywedodd AS y câi SAC ei gwahodd i arsylwi ac, felly, y byddai'n tynnu'r awgrym y dylai Llywodraeth Cymru hefyd weithredu fel sylwedydd yn ôl.	PWYNT GWEITHREDU: AS i dynnu'r awgrym y dylai Llywodraeth Cymru weithredu fel sylwedydd ar Grŵp Gorchwyl a Gorffen CLILC ar Ddangosyddion yn ôl
4	Cefnogi Pobl – prosiect cysylltu data	
	Rhoddodd SEAL gyflwyniad ar Brosiect Dichonoldeb Cysylltu Data Cefnogi Pobl. Esboniodd y gallai ALLau ymuno â'i gilydd er mwyn cydariannu rhywfaint o waith dadansoddi a allai gael arian cyfatebol gan y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol (ESRC) fel rhan o gais Llywodraeth Cymru am ragor o gyllid Bydd y cais yn cynnwys cynnig i ymgorffori 'Cyfarpar' Ymchwil SAIL mewn ALLau a nododd SEAL fod Llywodraeth Cymru yn awyddus i nodi ardaloedd peilot posibl. Cynigiodd LH Wynedd fel ardal beilot bosibl oherwydd ei diddordeb parhaus mewn datblygu'r defnydd a wneir o SAIL. Gwahoddwyd awgrymiadau ar gyfer ffocws unrhyw waith i ddadansoddi data Awdurdodau Lleol a allai gael ei ariannu gan yr ESRC (pe bai'r cais yn llwyddiannus). Yr awgrymiadau a gafwyd oedd: • gwerthuso maes gofal a thrwsio. • rhywfaint o waith ar y Farchnad Gofal Cymdeithasol Ehangach – a fyddai'n edrych ar adnoddau a gallu.	PWYNT GWEITHREDU: SEAL i wneud gwaith dilynol ar awgrymiadau ar gyfer dadansoddi SAIL o bosibl SEAL i gysylltu â LH ynghylch y posibilrwydd o dreialu cyfarpar SAIL yng Ngwynedd.
5	Data agored Stats Cymru	
	Cyflwynodd AA wefan Stats Cymru wedi'i diweddaru, sydd bellach yn cynnwys diweddariad beta sy'n galluogi unigolion i gael gafael yn	PWYNTIAU GWEITHREDU:

	uniongyrchol ar ddata craidd ar ffurf y gall peiriant ei darllen. Gellir cyrraedd y wefan drwy ddolenni newydd statscymru.llyw.cymru (mae'r hen ddolenni yn gweithio o hyd). Mae'r agwedd 'ar ffurf y gall peiriant ei darllen' ar y data yn defnyddio pwynt terfyn OData Microsoft a lle roedd angen islwytho'r data â llaw yn flaenorol er mwyn cael gafael ar y data mewn system eilaidd. Gellir defnyddio dolen fyw bellach i gysylltu'n awtomatig â'r data i'r system honno e.e. pan ddaw data blynyddol newydd ar gael. Mae'r disgrifyddion, yr hierarchaethau a'r metadata oll ar gael hefyd o bwynt terfyn OData. Mae metadata StatsCymru yn cynnwys pob URL perthnasol. Gall defnyddwyr ddefnyddio amrywiaeth o feddalwedd i gael gafael ar y data fel hyn e.e. Microsoft Power BI neu Excel. Er mai dim ond y data ei hun y bydd dadansoddwyr yn tueddu i'w defnyddio fel arfer, gall manylion y tu ôl i'r data, megis y dimensiynau ac eitemau o fewn y dimensiynau hynny, fod yn ddefnyddiol i unrhyw un sydd am lunio cymhwysiad yn seiliedig ar y data. Gellir islwytho data yn Gymraeg neu Saesneg neu'n ddwyieithog. Erbyn diwedd y flwyddyn, OData fydd yr holl ddata newydd a ychwanegir. Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio ar lwytho rhagor o ddata i giwbiau e.e. data Anafiadau Ffyrdd. Gofynnodd GJ i'r aelodau roi gwybod i Lywodraeth Cymru pa giwbiau/setiau data sydd fwyaf defnyddiol fel y gellir blaenoriaethu'r rhain. Anogodd AA yr aelodau i ddefnyddio swyddogaeth Data Agored fel rhan o'r prawf beta fel y gellir dileu unrhyw fygiau. Gofynnodd GM a ellir defnyddio cell mewn taenlen i ddynodi paramedr ac wedyn ei defnyddio'n awtomatig i ymholi'r metadata neu'r date ei hun wrth lunio cymhwysiad a chadarnhaodd AA fod rhywbeth tebyg wedi'i wneud. Mae'r wefan wedi'i diweddarau i'w gweld yn https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue	Yr aelodau i roi gwybod i Lywodraeth Cymru pa giwbiau / setiau data y dylid eu blaenoriaethu er mwyn eu cyhoeddi fel OData. AA i ymchwilio i'r posibilrwydd o gomisiynu rhywfaint o hyfforddiant ar y cyd ar Power BI yng Nghymru.
6	Rhannu Gwybodaeth	
	Nid oedd unrhyw amser i rannu unrhyw wybodaeth ychwanegol.	
7	Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol	
	Dangosyddion Cenedlaethol Rhoddodd GJ y wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd sydd wedi'i wneud o ran y Dangosyddion Llesiant Cenedlaethol, gan nodi eu bod wedi cael ymateb da i'r ymgynghoriad a bod hyn wedi arwain at newidiadau i'r set derfynol a gyhoeddwyd cyn i'r Cynulliad dorri am yr haf (16 Mawrth). Roedd rhai materion i'w hystyried o hyd, er enghraifft ymrwymodd y Gweinidog i edrych ar y ffordd rydym yn mesur llesiant plant yn y dyfodol. Mater allweddol arall i'w ystyried oedd a ddylai fod hierarchaeth, gyda rhai prif ddangosyddion ac a ddylai fod unrhyw grwpiau. Yn y diwedd cyflwynwyd pob un o'r 46 fel set blaen ac ymrwymodd y Gweinidog i roi rhagor o sylw i'r ffordd roeddent yn cael eu cyflwyno. Caiff cerrig milltir eu datblygu hefyd ar gyfer rhai o'r dangosyddion maes o law. Y Camau nesaf: • Bydd yn ofynnol i Lywodraeth Cymru gyhoeddi adroddiad llesiant blynyddol o 2017-18. • Cyhoeddir y data ar StatsCymru fel Data Agored a chyhoeddir adnodd sy'n nodi'r dolenni i'r data yn ystod yr haf.	

	Nododd AS, o ran asesiadau llesiant lleol, y gall fod tensiwn hefyd rhwng ffynonellau pan fydd un ffynhonnell ar gael/yn fwy priodol ar lefel genedlaethol a ffynhonnell arall ar gael/yn fwy priodol ar lefel leol. Os yw'r gwahaniaeth rhwng y ddwy yn fach, byddai'n synhwyrol dilyn yr un genedlaethol. Dywedodd GJ fod angen cydnabod y dangosydd cenedlaethol ond triogli â ffynonellau sy'n addas ar lefel leol. Gofynnodd SM pam y caiff adroddiadau ar y dangosyddion eu cyflwyno gan ALLau ond nid Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus. Dywedodd GJ mai'r lefel genedlaethol yw'r flaenoriaeth glir ond, os oes angen, y gall Llywodraeth Cymru ddarparu ardaloedd gwahanol. Addawodd GJ y byddai'n trosglwyddo'r awgrym i Lywodraeth Cymru ond dywedodd ei bod yn bosibl na fydd rhywfaint o ddata byth ar gael ar y lefel honno. Awgrymodd JE y dylid nodi'n glir lle nad oedd data ar gael a beth oedd y gwendidau yn y data presennol. Nododd AS fod rhywun wedi gofyn i LGDU-W lunio adroddiadau rhanbarthol a nodi gwendidau yn y data. Dywedodd GJ ei bod yn bwysig cofio nad dangosyddion perfformiad fydd y rhain ac nad oedd unrhyw fwriad i gyhoeddi adroddiad ffurfiol yn cymharu ALLau. Er bod Llywodraeth Cymru yn gallu seilio Arolwg Cenedlaethol Cymru ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, gofynnodd JE faint o ddylanwad sydd ganddi ar arolygon y tu allan i Gymru e.e. ar y SYG. Nododd GJ fod gan Lywodraeth Cymru gydb berthnasau cryf â'r SYG ar bob un o'i harolygon a'i bod yn gobeithio, pan fydd un o arolygon y SYG wedi'i ddefnyddio, y bydd yn parhau i fod ar gael yn y dyfodol.	PWYNTIAU GWEITHREDU: GJ i ystyried y potensial i gyhoeddi data ar gyfer Dangosyddion Cenedlaethol gan ddefnyddio ardaloedd gwahanol
	Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol Nododd DT y gofyniad statudol i gyhoeddi adroddiad ar Dueddiadau yn y Dyfodol erbyn mis Mai 2017 a nododd y syniadaeth gyfredol ynghylch sut y gellid datblygu'r adroddiad. Caiff grŵp rhanddeiliaid/grŵp cynghori ei greu maes o law. Mae'r diben yn allweddol: os caiff ei wneud yn dda, mae angen iddo herio gweinidogion ac uwch swyddogion polisi mewn ffordd adeiladol, gan nodi'r mathau o ddewisiadau y mae angen iddynt eu gwneud nawr er mwyn darparu gwasanaethau addas yn y dyfodol. Felly, hyd yn oed os yw'r gwaith hwnnw wedi'i wneud eisoes, mae angen i ni ychwanegu naratif adeiladol a sicrhau cydlyniant rhwng ardaloedd. Bydd y prosiect hefyd yn ystyried sut i gynnwys busnesau a'r trydydd sector. Nododd JE fod gan amcanestyniadau a wneir gan ddefnyddio Daffodil, er eu bod yn well na dim, rai gwendidau. Nododd hefyd fod lechyd Cyhoeddus Cymru ar fin gwneud rhai amcanestyniadau yn seiliedig ar amcanestyniadau Cyfrifiad 2011. Dywedodd HW fod disgwyl i brosiect lechyd Cyhoeddus Cymru gael ei gyhoeddi ym mis Medi ar ei gwefan; bydd defnyddwyr yn gallu addasu'r allbynnau drwy ddewis pryderon iechyd gwahanol fel mewnbynnau. Cyflwynodd GJ adroddiad ar y pwynt gweithredu o'r cyfarfod diwethaf ynghylch: a fyddai'n rhaid i Awdurdodau Lleol ailgyflwyno asesiadau llesiant ar ôl i'r adroddiad ar Dueddiadau yn y Dyfodol gael ei gyhoeddi: bydd amser i'w diwygio ar ôl yr ymarfer ymgysylltu â'r cyhoedd. Wedyn cafwyd trafodaeth ynghylch yr agweddau ymarferol ar yr amserlen. Nododd JT fod gwahaniaeth mawr rhwng yr hyn y gellir ei gyflawni yn yr amser byr sydd ar gael i gynnal yr asesiadau poblogaeth o gymharu â'r cyfnodau hwy sydd ar gael i gynnal asesiadau llesiant.	

	Nododd GJ, os oedd unrhyw beth y gallai Llywodraeth Cymru ei wneud i helpu, y dylai'r aelodau roi gwybod i Lywodraeth Cymru. Dywedodd LH y byddai unrhyw beth y gall Llywodraeth Cymru ei wneud i gyfeirio ALLau at ddata yn ddefnyddiol. Dywedodd AS fod rhai o'r heriau yn gysylltiedig â'r data islaw lefel ALI, a all fod yn gyfyngedig - mae rhai ardaloedd ond wedi dewis nifer fach o israniadau ar gyfer eu Hawdurdod Lleol er mwyn gwneud y gwaith yn fwy hylaw. Y cynnig ynglŷn â'r rhwydwaith ymchwil – JT i siarad â GJ ynghylch ail-lansio'r rhwydwaith hwn. Diolchodd GJ i DT a'i wahodd i ddod i gyfarfodydd PCYC yn y dyfodol.	PWYNTIAU GWEITHREDU: JT i gysylltu â GJ mewn perthynas â rhwydwaith ymchwil y Sector Cyhoeddus Caiff DT ei wahodd i gyfarfodydd PCYC yn y dyfodol
	Asesiadau Llesiant / Poblogaeth Rhoddodd AS y wybodaeth ddiweddaraf am y maes hwn a rhagolwg o'u gwaith wrth ddatblygu pecynnau cymorth ar gyfer darparu tystiolaeth ynglŷn â'r asesiadau. Nododd AS, er bod angen i ALLau lunio asesiadau eleni, fod rhai ALLau yn aros am asesiadau poblogaeth cyn cynnal asesiadau llesiant. Nododd AS fod y gwaith yn cael ei wneud mewn ffyrdd gwahanol iawn mewn rhannau gwahanol o Gymru, gyda'r un unigolyn yn llunio'r ddau ar gyfer rhai ALLau ond nid ar gyfer ALLau eraill. Canolbwyntir yn bennaf ar ddadansoddi sefyllfaoedd yn hytrach na dadansoddi ymatebion - roedd pobl yn credu bod angen iddynt orffen y gwaith dadansoddi sefyllfaoedd cyn dechrau dadansoddi ymatebion ond mae hynny wedi newid bellach. Mae anghenion data yn dechrau dod i'r amlwg ond ar gyfer gwaith dadansoddi sefyllfaoedd yn bennaf. Mae'n llai clir beth fydd y gofynion o ran dadansoddi ymatebion ac a oes angen data ar lefel Bwrdd Gwasanaethau Lleol neu ar lefel ranbarthol. Mae a wnelo'r darn mwyaf o waith â 'felly beth' ('so what'). Mae gweithdai rhanbarthol i gefnogi Byrddau Gwasanaethau Lleol yn cael eu cynnal. Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi grant er mwyn cefnogi gwaith ar asesiadau llesiant lleol yn debyg i'r hyn a wnaed ar gyfer asesiadau poblogaeth er mwyn helpu i gasglu'r data ynghyd. Mae tensiwn o ran sut rydym yn cymharu â rhannau eraill o Gymru o gymharu â'r hyn sydd ei angen yn lleol – h.y. mae angen cyfraddau i'w cymharu â niferoedd absoliwt o ran faint o bobl y mae angen gwasanaethau arnynt.	
8	Datblygu amcanestyniadau Llafurlu ar gyfer awdurdodau lleol	
	Esboniodd LS fod sawl ffordd o fynd ati i ddatblygu amcanestyniadau, gan ddibynnu ar eu diben: naill ai modelu effaith newid yn y boblogaeth ar y galw am swyddi neu ddewis nifer darged o swyddi a modelu'r goblygiadau i'r ardal e.e. nifer yr anheddau sydd eu hangen. Beth bynnag yw'r diben, mae angen amcanestyniad cenedlaethol da fel sail i lywio amcanestyniadau o weithgarwch lleol am fod tueddiadau lleol yn fwy anwadal na thueddiadau cenedlaethol. Mae'n bwysig defnyddio gwybodaeth leol i lywio amcanestyniadau lleol e.e. gall rhai ardaloedd lle y ceir lefel isel o weithgarwch economaidd fod yn ardaloedd lle mae potensial i weithgarwch o'r fath gynyddu. Mae'n rhaid ystyried cymudo hefyd. Mae tabl cyfrifiad o wardiau etholiadol cyfunol i unrhyw un sydd â diddordeb mewn data islaw lefel ALI. Fodd bynnag, y casgliad allweddol yw bod angen rhagolwg cenedlaethol wedi'i lunio'n dda ac wedi'i ddogfennu'n dda. Mae diffyg ystadegyn cenedlaethol a dderbynnir ar gyfer gweithgarwch economaidd rhagamcanol yn her allweddol; mae dau amcanestyniad – EC ac OBR – ac ystyrir bod y ddau yn rhai swyddogol ond maent yn wahanol	PWYNT GWEITHREDU: JE i roi cyflwyniad ar ei gwaith ar amcanestyniadau o'r llafurlu yn un o gyfarfodydd PCYC yn y dyfodol.

	iawn. Cafwyd trafodaeth ynghylch amrywiol ddulliau sy'n bodoli eisoes a chytunodd JE i gyflwyno ei gwaith ar amcanestyniadau i un o gyfarfodydd PCYC yn y dyfodol.	
9	Rhaglen Dystiolaeth Cyflwr Tai	
	Nododd SL i'r mater hwn gael ei drafod yn un o gyfarfodydd PCYC beth amser yn ôl ond bod rhagor o waith paratoi wedi'i wneud er mwyn rhoi cyngor i weinidogion ym mis Chwefror 2016 gan awgrymu ffordd ymlaen. Cytunodd Gweinidogion i fwrw ymlaen â'r gwaith er mwyn paratoi ar gyfer gwaith a all gael ei ariannu yn y dyfodol nid yn unig i gasglu arolwg cyflwr tai ond hefyd i ddatblygu colofn anheddau er mwyn casglu data gweinyddol ar dai yng Nghymru ynghyd e.e. EPC, VOA. Mae swyddogion bellach yn mynd yn ôl i geisio arian gan weinidogion. Gofynnodd JE a gâi'r data eu defnyddio ar lefel Ardal Cynnyrch Ehangach Is o fewn MALIC a dywedodd SL mai dyna oedd y bwriad. Gofynnodd JT a gâi'r data eu casglu er mwyn adrodd ar ddiffiniad Hills o dlodi tanwydd ond nododd SL nad oedd diffiniad Hills wedi'i fabwysiadu yng Nghymru. Disgwylir i fodel diwygiedig Tlodi Tanwydd gael ei gyhoeddi ym mis Gorffennaf.	
10	Diweddariad MALIC	
	Cyflwynodd SL rai sleidiau ar yr amrywiaeth mawr o adroddiadau sydd wedi'u cyhoeddi ers 2014. Dywedodd JE fod dangosyddion MALIC yn fan cychwyn da i ALLau o ran pa ddata y gellir eu defnyddio islaw lefel ALI ar gyfer asesiadau o anghenion. Nododd SL fod trafodaethau yn dechrau ynghylch pryd i lunio MALIC newydd a bydd Llywodraeth Cymru yn cysylltu i ofyn pryd y bydd ei angen. Byddai gwybodaeth am y defnydd y mae ALLau yn ei wneud o MALIC hefyd yn ddefnyddiol i'w bwydo i mewn i'r broses o ddatblygu'r mynegai ac amseriad y mynegai. Nododd SL y bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ddiweddaru'r dangosyddion bob blwyddyn a'i bod yn ystyried gwneud rhywfaint o waith dadansoddi pellach. Mae gwaith dadansoddi eisoes wedi'i gyhoeddi ar gyfer grwpiau oedran gwahanol ond a fyddai'r aelodau cystal â rhoi gwybod pa bynciau eraill a fyddai o ddiddordeb iddynt e.e. incwm a chyflogaeth, pobl hŷn, grwpiau poblogaeth penodol neu ardaloedd penodol. Gellir rhoi rhywfaint o ddata dangosyddion i mewn i'r adnodd mapio rhyngweithiol a bydd y graddau y gellid defnyddio adborth ar flaenoriaethau yn dibynnu ar adnoddau. Nododd JE y bydd angen ystyried blaenoriaethau yng nghyd-destun Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Nododd GJ fod prosiect yn cael ei gwblhau i ystyried pa mor ymarferol fyddai llunio mesur amddifadedd ar lefel unigolyn yn seiliedig ar ddata gweinyddol cysylltiedig.	PWYNTIAU GWEITHREDU: Yr aelodau i roi gwybod i SL: 1. pa waith dadansoddi pellach a fyddai'n ddefnyddiol 2. yr amseriad a ffeirir ar gyfer MALIC newydd 3. blaenoriaethau o ran data i'w hychwanegu at yr adnodd mapio rhyngweithiol 4. ar gyfer beth rydych yn defnyddio MALIC
11	Unrhyw fater arall	

	Atgoffodd GJ yr aelodau i gwblhau'r ffurflen adborth ar-lein. Rhoddodd GJ y wybodaeth ddiweddaraf i'r grŵp am reoliad diogelu data cyffredinol yr UE a ddaw i rym ymhen dwy flynedd ac a fydd yn effeithio ar y defnydd a wneir o ddata. Felly mae angen i'r aelodau ddechrau meddwl amdano. Nododd GJ hefyd fod y ddeddfwriaeth newydd ynglŷn â rhannu data wedi'i chynnwys yn araith y Frenhines ac y rhoddir y wybodaeth ddiweddaraf amdani i PCYC wrth iddi ddod i law.	
	Cynhelir cyfarfod nesaf PCYC ar 13 Hydref gan ddefnyddio'r gwasanaeth fideogynadledda. Rhowch wybod os hoffech ddefnyddio'r Gymraeg.	Yr Ysgrifenyddiaeth i gadarnhau dyddiad y cyfarfod nesaf gyda'r Aelodau

Crynodeb o'r Pwyntiau Gweithredu

1.	GJ i ysgrifennu at yr aelodau i ofyn am awgrymiadau ynglŷn â phwy a allai gynrychioli maes cynllunio defnydd tir ar WASP
2.	SL i holi cydweithwyr o fewn Llywodraeth Cymru ynghylch y canllawiau ar asesu anghenion sipsiwn a theithwyr
3.	GJ i ddosbarthu rhestr o gynrychiolwyr CAG er mwyn sicrhau bod cynrychiolaeth briodol o awdurdodau lleol a bod gwarcheidwad yr NLPG yn cael ei gynnwys. Bydd cynrychiolwyr CAG yn cyflwyno adroddiadau ffurfiol i PCYC.
4.	AS i dynnu'r awgrym y dylai Llywodraeth Cymru weithredu fel sylwedydd ar Grŵp Gorchwyl a Gorffen CLILC ar Ddangosyddion yn ôl
5.	SEAL i wneud gwaith dilynol ar awgrymiadau ar gyfer dadansoddi SAIL o bosibl SEAL i gysylltu â LH ynghylch y posibilrwydd o dreialu cyfarpar SAIL yng Ngwynedd.
6.	Yr aelodau i roi gwybod i Lywodraeth Cymru pa giwbiau / setiau data y dylid eu blaenoriaethu er mwyn eu cyhoeddi fel OData. AA i ymchwilio i'r posibilrwydd o gomisiynu rhywfaint o hyfforddiant ar y cyd ar Power BI yng Nghymru.
7.	GJ i ystyried y potensial i gyhoeddi data ar gyfer Dangosyddion Cenedlaethol gan ddefnyddio ardaloedd gwahanol
8.	JT i gysylltu â GJ mewn perthynas â rhwydwaith ymchwil y Sector Cyhoeddus
9.	Caiff DT ei wahodd i gyfarfodydd PCYC yn y dyfodol
10.	JE i roi cyflwyniad ar ei gwaith ar amcanestyniadau o'r llafurlu yn un o gyfarfodydd PCYC yn y dyfodol.
11.	Yr aelodau i roi gwybod i SL: 1. pa waith dadansoddi pellach a fyddai'n ddefnyddiol 2. yr amseriad a ffefrir ar gyfer MALIC newydd 3. blaenoriaethau o ran data i'w hychwanegu at yr adnodd mapio rhyngweithiol 4. ar gyfer beth rydych yn defnyddio MALIC
12.	Yr Ysgrifenyddiaeth i gadarnhau dyddiad y cyfarfod nesaf gyda'r Aelodau